O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 957 (Cy. 233)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40/A449 (Man i'r gorllewin o Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan hyd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016

Gwnaed	*20 Medi 2016*
Yn dod i rym	*26 Medi 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon a Chefnffordd Rhaglan - Llanymddyfri (yr A40 a'r A449) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Medi 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40/A449 (Man i'r gorllewin o Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan hyd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2016.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 26 Medi 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd/cefnffyrdd" *("the length(s) of the trunk road(s)")* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A40 a'r A449 yn siroedd Powys a Mynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 5.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3, 5 a 6.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4, 5 a 6.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4, 5 a 6 ar

yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

Atal Dros Dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2, 3, 4, 5 a 6 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

Cymhwyso

9. (1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Medi 2016

Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o drosbont Penpergwm.

Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 330 o fetrau i'r dwyrain o danffordd Hardwick Lane.

Y darn cyfan o'r gilfan sydd â'i ganolbwynt 470 o fetrau i'r dwyrain o danffordd wasanaethu Dobson's Farm.

ATODLEN 2
Terfyn Cyflymder o 50 mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at bwynt 105 o fetrau i'r de-orllewin o borth deheuol Twnelau Gibraltar.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 271 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Dixton hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

ATODLEN 3
Terfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Glangrwyney Court hyd at bwynt 134 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Red Barn Road.

ATODLEN 4
Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Glangrwyney Court hyd at bwynt 135 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

ATODLEN 5
Terfyn Cyflymder 50 mya, neu 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn hwnnw o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 384 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r de ar yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

ATODLEN 6
Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.